Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Grant Cymorth Ysgrifennu Bid SPF

Nodiadau i Ymgeisydd Grant

1) Os nad oes rhif cofrestru gan eich sefydliad, byddwch angen cyflwyno tystiolaeth o:

- Gyfansoddiad ysgrifenedig (e.e. cyfres o reolau / dogfen lywodraethu) a
- Byddwch angen cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu (yn enw'r sefydliad) gyda lleiafswm o ddau lofnodwr yn eu lle cyn gwneud cais am y cyllid hwn.

2) Mae'r holl ddyfarniadau yn ddewisol ac nid oes proses apêl. Nid yw gwneud na chyflwyno cais am y grant yn gwarantu y bydd unrhyw gyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer cymorth ysgrifennu'r bid hwn.

3) Mae cyfyngiad amser ar y gronfa hon a dim ond i (oddeutu) 18 sefydliad y bydd yn darparu grantiau cymorth ysgrifennu bid.

Gellir ystyried sefydliadau sy'n cyd-fynd yn llawn â'r meini prawf ac sydd â phrosiect yn ymwneud ag ynni / datgarboneiddio sydd wedi'i ddatblygu'n dda yng ngogledd Cymru.

4) Byddwn hefyd yn creu rhestr wrth gefn o brosiectau ynni / datgarboneiddio posib a allai elwa petai mwy o gyllid yn dod ar gael - cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth ynni@uchelgaisgogledd.cymru

Y dyddiad cau yw 30 Awst 2024 neu'n gynt os bydd y cyllid wedi'i ddyrannu'n llawn.

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales



POWERED BY LEVELLING UP

WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO